

Hysbysiad Preifatrwydd Recriwtio Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn casglu, prosesu a storio data personol yn ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi er mwyn asesu eu haddasrwydd ar gyfer eu cyflogi ac er mwyn cwblhau prosesu recriwtio a dethol teg a gwrthrychol. Mae GTAGC yn ymroddedig i fod yn agored ynglŷn â sut y mae'n casglu a defnyddio'r data hwnnw a chyflawni ei ymrwymiadau diogelu data.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth allweddol y mae ymgeiswyr am swyddi ei hangen mewn perthynas â phreifatrwydd a diogelwch eu data; gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach at Swyddog Digoelu Data y Gwasanaeth:

Swyddog Diogelu Data, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ffordd Salisbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy LL17 0JJ. Ffôn: 01745 535250. Ebst: dpo@nwales-fireservice.org.uk

Pa ddata personol y mae GTAGC yn ei brosesu a sut?

Mae'r wybodaeth a brosesir yn cynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad epost a rhif ffôn;
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth, gan gynnwys dyddiadau cychwyn a gorffen, gwaith gyda chyflogaeth blaenorol a GTAGC;
- gwybodaeth am eich cydnabyddiaeth ariannol nawr ac yn y gorffennol, gan gynnwys hawl i fudd-daliadau;
- os oes gennych anabledd y mae angen i'r gyfundrefn wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio;
- gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU;
- unrhyw wybodaeth an gofnodion troseddol;
- unrhyw bresenoldeb cyhoeddus sydd gennych ar y cyfryngau cymdeithasol;
- asesiadau o'ch perfformiad yn ystod proses ddethol, a
- gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich oedran, tarddiad ethnig, tueddfryd rhywiol, iechyd a chrefydd neu gred a dymuniadau o ran iaith.

Mae GTAGC yn casglu'r wybodaeth hon mewn amrywiol ffyrdd. Er enghraifft, cesglir data trwy gyfrwng ffurflenni cais arlein a phapur, o ddogfennau a ddarparwyd i gadarnhau pwy ydych chi a'ch hawl i weithio yn y DU (megis pasbort a thrwydded yrru); ffurflenni a gwblhawyd gennych yn ystod y broses ddethol, gohebiaeth gyda chi; neu drwy gyfweiliadau, cyfarfodydd neu asesiadau eraill, ac weithiau o wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol neu wybodaeth rydych yn ei rhoi ar rwydwaith cyfryngau cymdeithasol preifat sy'n cael ei hanfon ymlaen atom ni. Bydd GTAGC yn ymchwilio i unrhyw bryderon mewn perthynas â phresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol a gwrthdrawiadau posibl gyda'n Gwerthoedd Craidd ac ni fydd yn cymryd penderfyniadau recriwtio yn seiliedig ar bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol yn unig.

Os cynigir swydd yn amodol i chi, bydd GTAGC yn casglu gwybodaeth personol amdanoch gan drydydd partiön, megis tystlythyrau gan gyflogwyr blaenorol, gwybodaeth gan ddarparwyr archwiliadau cefndir a gwybodaeth o archwiliadau cofnodion troseddol a ganiateir dan y gyfraith.

Pam y mae GTAGC yn prosesu data personol?

Mae angen i GTAGC brosesu data personol er mwyn rhedeg prosesau recriwtio a dethol ac i ganfod os yw ein perthynas cyflogaeth gyda chi yn briodol, ac os yn briodol, i lunio contract

gwaith gyda chi a chyflawni ei gyfrifoldebau dan eich contract gwaith. Er enghraifft, mae angen iddo brosesu data personol ymgeiswyr am swyddi er mwyn monitro a chofnodi'r ffaith bod proses recriwtio a dethol deg wedi digwydd.

Mewn rhai achosion, mae angen i GTAGC brosesu data i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ymrwymadau cyfreithiol. Er enghraifft, mae angen iddo wneud archwiliad i hawl gweithiwr i weithio yn y DU.

Caiff rhai categorïau arbennig o ddata personol, megis gwybodaeth am gyflwr iechyd neu feddygol, eu brosesu er mwyn ymgymryd ag ymrwymadau cyfraith cyflogaeth (megis rhai mewn perthynas â gweithwyr ag anabledd sydd angen addasiadau rhesymol ar gyfer proses recriwtio a dethol ac i ddibenion iechyd a diogelwch).

Lle mae GTAGC yn brosesu categorïau eraill o ddata personol, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, tueddfryd rhywiol, iechyd neu grefydd neu gred, gwneir hyn i ddibenion monitro cyfle cyfartal ac adrodd i'r llywodraeth.

Efallai hefyd bod angen GTAGC brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi i ymateb i ac amddiffyn yn erbyn hawliadau cyfreithiol.

Pwy sy'n medru gweld data personol?

Caiff eich gwybodaeth ei rhannu'n fewnol gyda staff o'r Adran AD i bwrpasau y broses recriwtio a dethol. Caiff peth gwybodaeth ei rhannu gyda Rheolwr Llinell y swydd wag a Rheolwyr eraill mewn meysydd busnes perthnasol. Mae gan staff TGCh allweddol fynediad at ddata fel y bo angen i ymgymryd â'u rôl.

Mae GTAGC yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon er mwyn rheoli'r porth recriwtio arlein.

Ni fydd GTAGC yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon eraill, oni fydd eich cais am swydd yn llwyddiannus, ac wedyn dylech gyfeirio at yr Hysbysiad Preifatrwydd Gweithwyr. Ni fydd GTAGC yn rhannu eich data cyn gwneud cynnig amodol o swydd.

Ni fydd GTAGC yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Sut mae GTAGC yn diogelu data personol?

Mae GTAGC yn cymryd diogelwch data o ddifrif. Mae gan GTAGC bolisiâu a rheolaethau mewnol i geisio sicrhau nad yw eich data yn cael ei golli, ei ddinistrio'n ddamweiniol, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac nad yw'n cael ei weld ac eithrio gan ei weithwyr wrth ymgymryd â'u dyletswyddau.

Sut ac am faint o amser mae GTAGC yn storio data personol?

Caiff data ei storio mewn amrywiol leoedd, gan gynnwys systemau rheoli AD GTAGC ac mewn systemau TG eraill (gan gynnwys system ebost GTAGC a'n porth recriwtio arlein).

Os bydd eich cais am swydd yn llwyddiannus, bydd GTAGC yn storio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth, ond y cyfnod byraf fydd 3 mis wedi i'r broses recriwtio a dethol ddod i ben er mwyn medru ymateb i ac amddiffyn yn erbyn hawliadau cyfreithiol. Gellir ymestyn y cyfnod hwn i

24 mis yn unol â'ch cais er mwyn ei ystyried mewn perthynas â swyddi gwag yn y dyfodol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw caiff eich data ei ddileu neu ei ddiinstrio.

Os bydd eich cais am swydd yn llwyddiannus ac os ydych yn derbyn cynnig amodol, dylech gyfeirio at yr Hysbysiad Preifatrwydd i Weithwyr.

Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Medrwch:

- gael gweld a chael copi o'ch data o wneud cais;
- gofyn i GTAGC newid data anghywir neu anghyflawn;
- gofyn i GTAGC ddileu neu stopio prosesu eich data, er enghraifft pan nad oes angen y data bellach i ddibenion prosesu;
- gwrthwynebu prosesu eich data lle mae GTAGC yn dibynnu ar ei hawliau dilys fel rheswm cyfreithiol ar gyfer prosesu, a
- gofyn i GTAGC roi'r gorau i brosesu eich data am gyfnod os yw'n anghywir neu os oes anghydfod o ran a yw eich buddiannau chi yn trechu rhesymau dilys GTAGC dros brosesu data.

Os hoffech ymarfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data.

Os ydych chi'n credu nad yw GTAGC wedi cydymffurfio gyda'ch hawliau diogelu data, medrwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth; mae manylion cyswllt i'w gweld ar ei wefan yn www.ico.org.uk

Nid ydych dan unrhyw ymrwymiad statudol na chytundebol i ddarparu data i GTAGC, ond gall methu â darparu data y gofynnir amdano lesteirio gallu GTAGC i weinyddu neu ystyried cais am swydd gennych. Ni fydd GTAGC byth yn cymryd penderfyniad recriwtio ar sail systemau penderfynu awtomatig yn unig.